**Tystysgrif Ganolradd mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg**

**PRAWF SIARAD ENGHREIFFTIOL**
***EXAMPLE SPEAKING TEST***

**CYFLWYNIAD**

Mae 2 ran i'r prawf siarad, sy'n para 15-20 munud.
Mae pob rhan o'r prawf yn cael ei recordio a'i hasesu'n allanol gan ddau farciwr annibynnol.

Yn Rhan 1, mae'r cyfwelydd a'r ymgeisydd yn trafod pwnc. Rhoddir dewis o dri ar daflen yr ymgeisydd ac mae ganddo hyd at dri deg munud i baratoi. Gall lunio nodiadau ar daflen yr ymgeisydd a mynd â hi i'r ystafell gyfweld, ond ni ddylai geisio sgriptio'r hyn y mae'n mynd i'w ddweud. Yn y rhan hon, asesir cywirdeb, ystod yr amserau a chystrawennau a ddefnyddir, gallu'r ymgeisydd i ryngweithio â'r cyfwelydd a phriodoldeb y cynnwys.

Yn Rhan 2, mae'r cyfwelydd yn holi'r ymgeisydd, gan ddefnyddio fframwaith sgwrsio. Bydd y cyfwelydd yn gofyn sgil-gwestiynau pan fydd yr ymgeisydd yn dweud rhywbeth diddorol. Asesir cywirdeb, ystod, gallu'r ymgeisydd i ryngweithio a phriodoldeb y cynnwys, a hefyd gallu'r ymgeisydd i estyn ei ymatebion ac i ynganu'n gywir. Pwysolir y meini prawf hyn yn gyfartal. Dylai'r ymgeisydd fod yn barod i siarad am gefndir, gwaith, teulu, diddordebau, profiad yn dysgu Cymraeg, gobeithion i'r dyfodol ac i ddisgwyl cwestiynau dilynol gan y cyfwelydd.

Y cyfarwyddyd i'r cyfwelwyr yw defnyddio'r Gymraeg yn unig trwy gydol y prawf ac nid oes angen iddynt asesu'r ymgeiswyr. Rhoddir rhai sylwadau ar y prawf isod fesul rhan, ar sail yr enghreifftiau fideo.

***INTRODUCTION***

*There are 2 parts to the speaking test, which lasts around 15-20 minutes.*
*Each part of the test will be recorded and assessed externally by two independent raters.*

*In Part 1, the interviewer and candidate discuss a topic. A choice of three is given on the candidate's sheet, and he/she has up to thirty minutes preparation time. He/She can write notes on the candidate's sheet and take it into the interview room, but should not attempt to script what he/she intends to say. In this part, accuracy, the range of tenses and syntaxes used, the candidate's ability to interact with the interviewer and the appropriateness of content.*

*In Part 2, the interviewer asks the candidate questions, using a conversation framework. The interviewer will ask follow-up questions when the candidate says something of interest. Accuracy, range, ability to interact and the appropriateness of content are assessed, as well as the candidate's ability to extend responses and pronounce accurately. These criteria are weighted equally. The candidate should be ready to talk about background, family, interests, experience of learning Welsh, hopes for the future and to expect follow-up questions by the interviewer.*

*Interviewers are directed to use only Welsh throughout the test, and they do not need to assess the candidates. Comments are given for each section on the test below, based on the video examples.*

**Rhan 1 – Trafod Pwnc**
***Part 1 – Topic Discussion***

Dyma'r dewis pynciau a roddwyd i'r ymgeiswyr yn y cyfnod paratoi.
*These are the topic choices given to the candidate in the preparation time.*

1. Mae plant heddiw'n rhy brysur.
2. Dylai pawb siopa yn y siopau bach.
3. Mae gwyliau'r ysgol yn rhy hir.

**Enghraifft 1 – Steve ac Irram**
**Example 1 – Steve and Irram**

**Sylwadau**
Mae'r ymgeisydd yn siarad yn dda, ac yn gallu siarad ar lefel haniaethol am y pwnc trafod. Ceir rhai gwallau, ond nid yw'r rhain yn ymyrryd â dealltwriaeth y cyfwelydd; mae'n defnyddio amserau a chystrawennau amrywiol, gan amlaf yn briodol; mae'n ymateb i gwestiynau'r cyfwelydd yn ddidrafferth ac mae cynnwys yr hyn mae'n ei ddweud yn gwbl briodol i'r pwnc trafod. Gellir canfod sut mae'r disgrifiadau'n cyfateb i farciau penodol yn y fanyleb.

***Comments***
*The candidate can speak well, and can talk on an abstract level about the discussion topic. There are some errors, but these do not make it difficult for the interviewer to understand; she useds a range of tenses and various syntaxes, mostly appropriately; she responds to the interviewer's questions with ease and the content of her talk is fully appropriate to the discussion topic. How these descriptions relate to a specific mark can be found in the specification.*

**Enghraifft 2 – Eirian a Zoe**
**Example 2 – Eirian and Zoe**

**Sylwadau**
Mae'r ymgeisydd yn gallu trafod dadleuon o blaid ac yn erbyn ar lefel haniaethol. Mae'n gallu sgwrsio'n 'naturiol' yn ddidrafferth. Ceir rhai mân wallau, ond mae'n gywir iawn ar y cyfan; defnyddia rai amserau a chystrawennau amrywiol; mae'n ymateb i'r hyn y mae'r cyfwelydd yn ei ddweud yn briodol, heb oedi'n ormodol gan gymryd ei thro'n ddidrafferth. Mae'r cynnwys yn gwbl briodol, ac mae hi'n estyn ymatebion gan ddweud mwy nag un peth. Mae'r ynganu'n dderbyniol ac enghreifftiau prin o gamynganu geiriau llai cyffredin.

***Comments***
*The candidate can discuss arguments for and against at an abstract level. She can chat 'naturally' with ease. There are some small errors, but she is very accurate on the whole; she uses some varied tenses and syntaxes, without undue hesitation and takes her turn without difficulty. The content is appropriate and she extends her responses to say more than one thing. Pronunciation is acceptable and there are rare examples of mispronouncing unusual words.*

**Rhan 2 – Sgwrs Gyffredinol**
***Part 2 – General Discussion***

**Enghraifft 1 – Steve ac Irram**
**Example 1 – Steve and Irram**

**Sylwadau**
Mae'r ymgeisydd yn fwy cyfforddus yn trafod pynciau cyfarwydd am y teulu a diddordebau. Gall adrodd digwyddiadau yn y gorffennol, mynegi dymuniadau a dyfalu. Mae hi fel arfer yn gywir, er bod rhai camgymeriadau, e.e. defnyddio'r patrwm 'Dw i'n cael...' yn lle 'Mae... 'da fi'. Mae'n defnyddio amrywiaeth o batrymau ac amserau ac yn rhyngweithio'n dda â'r cyfwelydd. Mae cynnwys ei hatebion yn gwbl briodol a gall ymateb â mwy nag un frawddeg. Mae ynganu'n dda'n gyffredinol, ond mae rhai geiriau heb eu hynganu'n glir, sy'n gwneud dealltwriaeth yn anodd ar brydiau.

***Comments***
*The candidate is more at ease in discussing familiar topics about family and interests. She can narrate events in the past, express wishes and make suppositions. She is usually accurate, although there are some mistakes, e.g. using 'Dw i'n cael...' instead of the 'Mae.... 'da fi' pattern. She uses a variety of patterns and tenses, and interacts well with the interviewer. The content of her replies is fully appropriate, and she can respond with more than one statement. Pronunciation is generally good, but some words are not pronounced clearly, making comprehension a little difficult at times.*

**Enghraifft 2 – Eirian a Zoe**
**Example 2 – Eirian and Zoe**

**Sylwadau**
Mae'r ymgeisydd hwn yn gallu sgwrsio'n hawdd ac yn gywir ar y cyfan. Dim ond mân wallau a geir, ac mae'n defnyddio amrywiaeth o amserau a chystrawennau sy'n gwbl addas i'r cyd-destun; mae'n rhyngweithio'n dda â'r cyfwelydd gan gymryd ei thro'n ddidrafferth; mae'r cynnwys yn gwbl briodol a'r atebion estynedig yn cael eu cysylltu'n rhwydd. Mae'r ynganu'n dderbyniol er bod rhai geiriau'n aneglur.

***Comments***
*This candidate can converse with ease and accuracy on the whole. Only mall errors are apparent, and she uses a variety of times and syntaxes which are fully appropriate to the context; she interacts well with the interviewer taking her turn without difficulty; the content is appropraiate and the extended responses are linked easily. Pronunciation is acceptable although some words are unclear.*

Enghraifft 1 – Byddai'r ymgeisydd hwn yn uchel yng ngradd Llwyddo, mewn brawf byw.
Enghraifft 2 – Byddai'r ymgeisydd hwn yn cyrraedd gradd Rhagoriaeth, mewn brawf byw.

*Example 1 – This candidate would be high in the Pass grade, in a live test.*
*Example 2 – This candidate would reach Distinction grade, in a live test.*